Swyddfa Archwilio Cymru

# Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu 2005

## Drafft Ymgynghori

Awst 2004

## Rhagair

Mae’n bleser gennym gyflwyno'r Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu (y Cod) drafft hwn er mwyn ymgynghori gyda nifer o fudd-ddeiliaid y Swyddfa Archwilio Cymru arfaethedig.

Fe fydd creu Swyddfa Archwilio Cymru o dan arweiniad Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC), yn darparu trefn archwilio ac arolygu ‘cysylltiedig’ i Gymru ar draws ystod eang o wasanaethau cyhoeddus. Fe fydd yn parhau i ddarparu sicrwydd ynglŷn â stiwardiaeth gywir a chyfrifon arian cyhoeddus. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cyfrannu at wella’r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus trwy ei raglan i graffu ar berfformiad cyrff cyhoeddus yng Nghymru ac archwilio y gwerth am arian a gafwyd mewn gwariant cyhoeddus.

Mae hon yn her a chyfrifoldeb anferth i’r ACC a Swyddfa Archwilio Cymru - her yr ydym yn benderfynol o’i derbyn. Fe fydd y Cod yma yn gonglfaen i’r llwyddiant yma, sef fframwaith allweddol ymagwedd gyffredinol archwilwyr ac arolygwyr i’w gwaith a hefyd i’w gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Fe wnaethom werthfawrogi'r sylwadau a gafodd eu derbyn i’r ymgynghoriad gwreiddiol ar y Cod. Erbyn hyn mae’r Cod drafft yma o leiaf yr un mor eang a chynhwysfawr yn ei gwmpas ag unrhyw god a gafodd ei baratoi gan gyrff archwiliedig cyhoeddus neu arolygwyr gwasanaethau cyhoeddus ledled y Deyrnas Unedig.

Mae’r drafft yn dangos sut yr ydym yn bwriadu darparu trefn gysylltiedig sydd yn fwy na rhai’r cyrff sydd yn ei greu, gan gynnwys delio’n briodol gyda’r materion cyfansoddiadol pwysig sy’n perthyn i’r ffaith fod y drefn yn ymdrin â swyddogaethau’r Cynulliad a llywodraeth leol. Mae hefyd yn nodi sut yr ydym yn disgwyl i’r drefn ddatblygu ymhellach yn y dyfodol yn nhermau adolygiadau o systemau cyfan a dulliau cyfannol o weithio ar draws ffiniau - mae archwilio

ac arolygu angen bod yr un mor holistig â'r problemau y mae gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu.

Mi fuaswn yn ddiolchgar iawn pe baech yn cymryd yr amser i ystyried y Cod hwn yn ofalus. Mae'r cyfnod o ymgynghori yn 12 wythnos, gan ddod i ben ar 29 Hydref 2004, er mwyn rhoi cymaint o gyfle ag sy'n bosibl i fudd-ddeiliaid ymateb, yn ogystal â'n galluogi ni i ystyried sylwadau a rhoi'r Cod o flaen Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn barod ar gyfer dechrau Swyddfa Archwilio Cymru ar 1 Ebrill 2005.

A fyddech gystal â gyrru eich sylwadau i: walescode@audit-commission.gov.uk. neu trwy ysgrifennu at Clive Grace yn Comisiwn Archwilio yng Nghymru, Tŷ Deri, 2-4 Park Grove, Caerdydd, CF10 3PA.

Edrychwn ymlaen i dderbyn eich sylwadau.

Sir John Bourn
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Clive Grace
Dirprwy ACC a Darpar Brif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru a Cyfarwyddwr-Cyffredinol y Comisiwn Archwilio yng Nghymru

6ed Awst 2004


## Rhagarweiniad

Y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu (y Cod) sy’n cael ei gyflwyno o fewn y ddogfen hon yw'r un mwyaf eang o ran ei gwmpas o bob cod ymarfer archwilio, neu ei gyfwerth, a baratowyd gan gyrff archwilio cyhoeddus, mewn unrhyw le yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn adlewyrchu cwmpas [Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru)] a wnaeth uno'r gweithredoedd cyfredol Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) a gweithredoedd archwilio ac arolygu a oedd yn cael eu cyflawni gan y Comisiwn Archwilio. Roedd y [Ddeddf] yn creu Swyddfa Archwilio Cymru i ddarparu trefn gyda chylch gwaith ledled ystod eang o wasanaethau cyhoeddus a gyda chyfle i ddefnyddio gweithredoedd archwilio ac arolygu mewn modd mwy effeithiol a chydlynol.

Mae gweithredoedd archwilio ac arolygu ACC, sy’n cynnwys archwilio datganiadau ariannol a gwaith mewn perthynas â pherfformiad gwasanaethau, yn cyfrannu at ddarparu:

- sicrwydd mewn perthynas â’r datganiadau ariannol blynyddol a bod cronfeydd cyhoeddus wedi cael eu defnyddio ar gyfer y dibenion cywir;
- gwybodaeth ar berfformiad gwasanaethau i’r cyhoedd;
- adborth i gyrff archwiliedig ac arolygiedig i’w helpu i wella gwasanaethau;
- gwybodaeth i’r rhai sy’n gyfrifol am graffu ar bolisi ac i wneuthurwyr polisi.

Mae hyn yn cael ei egluro yn y set ganlynol o berthnasau:



Er mwyn cwrdd a'r gofynion yma mae ACC yn defnyddio'r cyfle i ddatblygu y Cod yma i nodi sut y dylid defnyddio yr ystod o weithredoedd yn y [Ddeddf] i sicrhau fod archwilio ac arolygu yng Nghymru yn fwy na rhai'r cyrff sydd yn ei greu. Mae'r egwyddorion y mae'r Cod yn seiliedig arnynt yn cysylltu yn uniongyrchol a cyflawni'r amcan hwn.

Mae'r [Ddeddf] yn nodi dyletswyddau a pwerau ACC, Swyddfa Archwilio Cymru a'r archwilwyr a apwyntir gan ACC. Diben y Cod yw i nodi yr ystod eang o ddyletswyddau a phwerau sydd i gael eu gweithredu. Wrth ddrafftio'r Cod mae hi wedi bod yn bosibl i achyb ar y cyfle i greu synergedd a gwell cysondeb rhwng gweithgareddau archwilio ac arolygu cyhoeddus ac arferion ledled yr ystod o wasanaethau cyhoeddus o fewn trefn ACC, mor bell ag sy'n bosibl tra'n cwrdd a gofynion y [Ddeddf] ar yr un pryd.
Mae'r Cod wedi cael ei strwythuro i gysylltu gweithgareddau archwilio ac arolygu perthynol o dan benawdau generig, ble fo hyn yn bosibl, yn hytrach na cael eu cyfyngu i'r ymarferion sy'n seiliedig ar sector a gafodd eu creu gan hanes a deddfwriaeth blaenorol. Mae'r Cod hefyd yn darparu am gyd-drefniant mwy effeithiol o waith maes a cynllunio archwilio ac arolygu ledled gwasanaethau.

Mae'r [Ddeddf] yn cadw rhai gwahaniaethau rhwng gwahannol sectorau. Yr un mwyaf nodedig o'r rhain yw fod archwiliadau o lywodraeth leol a cyrff y GIG lleol yn cynnwys yr archwiliad blynyddol o ddatganiadau ariannol a gwaith i ystyried y trefniadau y cyrff i ddiogelu economi, effeithiolrwydd ac effeithlonedd yn y defnydd o'u hadnoddau. Mae hyn yn cyferbynnu gyda'r drefn ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) a cyrff sy'n berthynnol i'r Cynulliad ble mae archwiliadau o ddatganiadau ariannol yn cael eu cyflawni ar wahan i'r rhaglen astudiaethau gwerth am arian blynyddol. O ganlyniad mae'r Cod, sy'n gorfod bod yn gyson gyda'r [Ddeddf] yn nodi gofynion sy'n benodol i un sector lle bod angen. Ond wrth wneud hyn, achubwyd ar y cyfle i osod egwyddorion cyffredin ac i wneud cyfeiriadau eglur i'r angen i ystyried cyfleoedd i weithio ar y cyd ble ceir buddion o hyn a fydd yn cynnwys, er enghraifft, ystyried y cwmpas ar gyfer cynnal astudiaethau

gwerth am arian trawsdoriadol o'r Cynulliad neu gyrff perthynol ar yr un pryd a gwaith gan archwilwyr mewn cyrff lleol. Bydd ACC hefyd yn ceisio gweithredu, o fewn y fframwaith deddfwriaethol, ymagwedd fwy integredig i'r archwiliadau o ddatganiadau ariannol a gwaith lleol mewn perthynas a gwerth am arian ledled yr holl drefn.

I grynhoi, mae'r Cod yn cynnwys pum adran:

- cyflwyniad;
- egwyddorion cyffredinol archwilio ac arolygu;
- archwilio datganiadau ariannol;
- archwilio ac asesu perfformiad gwasanaethau cyhoeddus gan ACC a'i archwilwyr penodedig;
- cyfrifoldebau eraill ACC ac archwilwyr penodedig.

Mae'r cyflwyniad yn darparu trosolwg o drefn ACC a'r berthynas gyda llywodraeth leol, a nodi statws, cwmpas a gweithrediad y Cod. Mae'r adran nesaf yn nodi egwyddorion cyffredinol sy'n gymwys i'r holl weithgareddau archwilio ac arolygu ledled yr holl sectorau. Mae'r ddwy sector yn berthnasol i bob rhan o drefn ACC.

Yn dilyn hyn mae gan y Cod adran ar archwilio datganiadau ariannol. Mae'r adran hon yn generig i bob rhan o'r drefn ac mae'n gofyn i'r holl archwiliadau o ddatganiadau ariannol i gael eu cynnal yn unol a safonau archwilio y DU, ond mae rhai gofynion adrodd sy'n benodol ar gyfer sectorau hefyd yn cael eu nodi.

Mae'r adran nesaf, ar archwilio ac asesu perfformiad gwasanaethau cyhoeddus, yn gweithredu yr egwyddorion cyffredinol sydd wedi eu nodi yn gynharach yn y Cod i waith archwilio ac arolygu mewn perthynas a trefniadau i ddiogelu economi, effeithlonrywdd a efeithlonedd. Ceir hefyd, fel y nodwyd uchod, gofynion sy'n benodol ar gyfer sectorau sy'n deillio o'r [Ddeddf] ond, lle

fo'n bosibl, mae'r adran hon yn hybu cyd-drefniant effeithiol o waith ac mae'n galluogi i'r ACC i wneud cysylltiadau rhwng rhagleni gwaith.

Yn olaf, mae'r Cod yn nodi sut y dylai cyfrifoldebau eraill yr archwilwyr gael eu gweithredu, er enghraifft, mewn perthynas a dyletswyddau penodol a phwerau archwilwyr apwyntiedig cyrff llywodraethol.
Mae Atodlen 1 y Cod yn darparu ar gyfer archwilio cyrff bach, ac mae atodiad 1 yn cynnwys rhestr termau.

Mae rhannau o'r Cod sydd yn berthnasol i'r archwiliadau o gyrff llywodraeth leol gan archwilwyr apwyntiedig a sydd yn cyfuno i lunio'r Cod Ymarfer Archwilio statudol (yn ôl [cyf at adran berthnasol y Ddeddf]). Mae hyn yn cael ei egluro ymhellach yn y cyflwyniad. Mae'r rhannau sydd yn ymwneud a archwiliadau o gyrff llywodraeth leol fel a ganlyn:

- cyflwyniad (yn benodol paragraff 6, 9 – 12);
- egwyddorion cyffredinol (adran 2 i gyd);
- archwilio datganiadau ariannol (paragraff 23 – 34, 44);
- archwilio ac asesu perfformiad gwasanaethau cyhoeddus (paragraff 46 – 47, 51 – 58, 61, 65 – 72);
- cyfrifoldebau eraill (paragraff 75 – 81);
- atodlen 1 i gyd.

*Ymgynghoriad drafft yn ddyddiedig Awst 2004*

# 1 Cyflwyniad

## Trosolwg o gyfundrefn archwilio ac arolygu Archwilydd Cyffredinol Cymru

1. Mae archwiliadau ac arolygiadau allanol annibynnol yn elfennau hanfodol yn y broses o fod yn atebol dros arian cyhoeddus. Gwnânt gyfraniadau pwysig at y broses o stiwardio adnoddau cyhoeddus, llywodraethu corfforaethol da, a gwella gwasanaethau cyhoeddus. Yn ôl [Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru)] mae gan ACC weithredoedd archwilio ac arolygu ledled ystod o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yn ogystal, mae'r [Ddeddf] yn creu Swyddfa Archwilio Cymru sydd yn cynnwys ACC a'r staff sydd wedi eu hapwyntio i gynorthwyo ACC.

2. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) yn gyfrifol am archwilio cyfrifon a baratoir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad), ei gyrff cyhoeddus cysylltiedig a'r GIG yng Nghymru gan gynnwys cyrff GIG lleol. Mae gan ACC hefyd y pŵer i archwilio darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ('gwerth am arian') y sefydliadau hynny a chyrff yn y sector iechyd a'r sectorau addysg bellach ac addysg uwch.

3. Mae ACC hefyd yn gyfrifol am benodi archwilwyr allanol i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae ganddo ddyletswyddau i gyflawni astudiaethau cymharol cenedlaethol ac astudiaethau gwerth am arian eraill ar draws llywodraeth leol, ac mae ganddo bwerau arolygu i asesu i ba raddau y mae cyrff llywodraeth leol penodol yn cydymffurfio â'u dyletswydd i gyflawni gwelliant parhaus yn eu swyddogaethau gan ystyried cyfuniad o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

## Perthynas ACC â llywodraeth leol

4. Tra bod y [cyfeiriad at y Ddeddf] wedi cyflwyno swyddogaethau i ACC yn ymwneud ag archwilio ac arolygu llywodraeth leol, nid yw'n newid y berthynas gyfansoddiadol rhwng y Cynulliad a chyrff llywodraeth leol, sy'n bennaf atebol i'w hetholaethau eu hunain. Mae'n ofynnol i ACC, Swyddfa Archwilio Cymru ac archwilwyr penodedig barchu sefyllfa gyfansoddiadol sefydliadau llywodraeth leol wrth gyflawni eu swyddogaethau statudol.

## Statws, cwmpas a chymhwyso'r *Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu* hwn *(y Cod)*

5. Mae'r *Cod* cyfan yn ymwneud â'r gwaith archwilio a gyflawnir ar flynyddoedd cyfrifo 2005-06 a blynyddoedd dilynol ac mae'n cwmpasu ystod lawn o gyfrifoldebau archwilio ac arolygu ACC. Mae'n nodi:

- sut y dylai staff a chontractwyr ACC gyflawni cyfrifoldebau archwilio ac arolygu ACC;
- sut y dylai archwilwyr penodedig cyrff llywodraeth leol gyflawni eu cyfrifoldebau.

6. Mae'r rhannau o'r *Cod* hwn sy'n ymwneud ag archwiliadau o gyrff llywodraeth leol yn statudol (o dan [cyfeiriad at y Ddeddf]) a daethant i rym ar [dyddiad] wedi iddynt gael eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi i'r *Cod* gael ei gyhoeddi gan ACC.

7. Mabwysiadwyd elfennau anstatudol gan ACC a daethant i rym hefyd ar [dyddiad] pan gyhoeddodd ACC y *Cod*.

8. Mae ystod o swyddogaethau ACC, a swyddogaethau'r archwilwyr a benodir gan ACC, a gwmpesir gan y *Cod* hwn yn eang. Mae'r rhestr termau yn nodi sut y caiff termau allweddol fel archwiliad, arolygiad, archwilydd ac archwilydd penodedig eu defnyddio yn y Cod. Defnyddir y term archwilydd yn gyffredinol i gyfeirio at ACC neu staff a chyflenwyr archwiliadau Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni swyddogaethau archwilio. Wrth gyfeirio'n fwy penodol at y rhai sy'n cyflawni swyddogaethau archwilio mewn perthynas â llywodraeth leol defnyddir y term 'archwilydd penodedig'. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod archwilwyr llywodraeth leol, er iddynt gael eu penodi gan ACC, yn cyflawni eu swyddogaethau archwilio yn annibynnol ac nid fel un o asiantau ACC. Gallai archwilwyr penodedig fod yn un o gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru neu'n gyflenwyr archwiliadau.

9. Mae'r *Cod* yn berthnasol i archwilwyr ac arolygwyr sy'n cyflawni swyddogaethau y mae'r *Cod* yn berthnasol iddynt p'un a ydynt yn gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru ai peidio, neu p'un a ydynt yn cyflawni eu swyddogaethau fel cyflenwyr o dan gontract i Swyddfa Archwilio Cymru.

10. Fel gydag unrhyw god sy'n ceisio cwmpasu amrywiaeth eang o amgylchiadau, mae'n rhaid i'r broses o gymhwyso'r *Cod* mewn unrhyw achos arbennig ddibynnu ar yr amgylchiadau penodol ac ar farn wedi ei dystiolaethu yr archwilwyr ac arolygwyr o'r hyn sy'n rhesymol ac yn briodol yn yr amgylchiadau hynny. Dylid darllen a chymhwyso holl ddarpariaethau'r *Cod* yn ôl yr amod angenrheidiol hwnnw.

## Diweddaru'r *Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu* a dogfennau cysylltiedig

11. Mae ACC yn ymrwymedig i ddiweddaru'r *Cod* i adlewyrchu newidiadau yn amgylchedd gweithredol cyrff a archwilir ac a arolygir ac mewn safonau ac arfer proffesiynol perthnasol, a gallent ddiwygio'r *Cod* lle y bo'n briodol yng ngoleuni profiad ymarferol. Yn ogystal â'r *Cod*, mae ACC yn cyhoeddi dogfennau ar wahân sydd wedi'u hanelu'n benodol at gyrff a archwilir ac a arolygir ac aelodau o'r cyhoedd:
    - *Datganiad o Gyfrifoldebau Archwilwyr ac Arolygwyr a Chyrff a Archwilir ac a Arolygir* - mae'r rhain yn amlygu cyfrifoldebau gwahanol yr archwilydd a'r arolygydd a'r corff a archwilir ac a arolygir, a'r terfynau ar yr hyn y disgwylir i'r archwilydd neu'r arolygydd ei wneud yn rhesymol. Mae ACC yn ymrwymedig i baratoi a chynnal datganiadau cyfrifoldebau sy'n ymwneud â sectorau penodol a lle y mae'r rhain yn bodoli maent yn gyfystyr â llythyr ymgysylltiad archwilio neu lythyr dealltwriaeth. Ar gyfer cyrff a archwilir neu a arolygir na chânt eu cwmpasu gan ddatganiad cyfrifoldeb, neu hyd nes y cânt eu cwmpasu gan ddatganiad o'r fath, bydd ACC yn cyhoeddi llythyr ymgysylltiad neu lythyr dealltwriaeth fel y bo'n briodol;
    - *Cyfrifon y Cyngor: Eich Hawliau* – sy'n nodi hawliau aelodau o'r cyhoedd i arolygu, a hawliau etholwyr lleol i gwestiynu a gwrthwynebu, cyfrifon cyrff llywodraeth leol, ac sy'n egluro pwerau'r archwilydd.

12. O bryd i'w gilydd, lle y bo angen, mae ACC hefyd yn cyhoeddi arweiniad i archwilwyr penodedig. Gwna ACC hynny o dan bwerau [cyfeiriad at y Ddeddf], i benodi archwilwyr ac i bennu amodau eu penodiad.

## 2 Egwyddorion cyffredinol archwilio ac arolygu

13. Dylai gwaith archwilio ac arolygu a gyflawnir o fewn cylch gwaith ACC lynu at yr egwyddorion cyffredinol canlynol sy'n rhyngberthynnol:

**i. bod yn annibynnol, ac ymddangos felly**

*Dylai archwilwyr ac arolygwyr gyflawni eu gwaith yn annibynnol ac yn wrthrychol, a dylai eu barnau, casgliadau a'u hargymhellion fod yn ddiduedd, a dylent ymddangos felly*

**ii. cyflwyno adroddiad yn gyhoeddus, lle y bo'n briodol, yn ddi-duedd, a hysbysu'r cyhoedd am berfformiad gwasanaethau cyhoeddus i wella atebolrwydd**

*Dylai archwilwyr ac arolygwyr gyflwyno adroddiad i'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol eraill, lle y bo'n briodol, gan nodi'r sefyllfa wirioneddol. Mae archwilio ac arolygu yn elfen hanfodol o atebolrwydd. Mae'r broses o gyflwyno adroddiad yn gyhoeddus, os caiff ei hategu gan ymateb cyhoeddus gan y corff dan sylw, yn helpu'r cyhoedd i benderfynu pa mor dda y mae gwasanaethau yn cael eu darparu.*

**iii. bod â chwmpas eang, sy'n cynnwys stiwardio arian cyhoeddus, cynnal busnes cyhoeddus, a pherfformiad ariannol ac anariannol wrth ddarparu gwasanaethau**

*Mae atebolrwydd arbennig yn gysylltiedig â'r defnydd o arian cyhoeddus a'r gwaith o gynnal busnes cyhoeddus, ac felly caiff cwmpas archwiliadau ac arolygiadau cyhoeddus ei ehangu i gynnwys agweddau ar stiwardiaeth, llywodraethu a rheoli perfformiad.*

**iv. canolbwyntio ar ganlyniadau gwasanaethau cyhoeddus o safbwynt y defnyddiwr**

*Mae archwiliadau ac arolygiadau yn edrych ar ba mor dda ac effeithlon y mae gwasanaethau cyhoeddus yn diwallu anghenion a beth yw profiad y dinesydd ohonynt. Golyga'r ffocws hwn fod angen i archwiliadau ac arolygiadau gymryd ymagwedd 'system gyfan' ac edrych ar draws ffiniau sefydliadol traddodiadol.*

**v. gweithredu fel catalydd i helpu cyrff cyhoeddus i wella eu perfformiad**

*Mae archwilwyr ac arolygwyr yn ceisio sicrhau perchenogaeth o ganfyddiadau gan y corff sy'n cael ei adolygu, herio cyrff a archwilir ac a arolygir i wella, ac yn ddigyfaddawd ynghylch methiant neu wasanaethau sy'n methu. Dylid cynllunio prosesau adolygu allanol i gynnal arweinyddiaeth wrth gyflawni gwelliant, gan gydnabod bod methiant i wella ynddo'i hun yn risg busnes allweddol ar gyfer cyrff cyhoeddus.*

**vi. bod yn seiliedig ar asesiad o risg**

*Dylai archwilwyr ac arolygwyr deilwra cwmpas, graddfa a natur eu gwaith a'r modd y maent yn ei gyflawni i amgylchiadau'r corff sy'n cael ei adolygu, er mwyn cyfeirio ymdrechion archwilio ac arolygu at y meysydd lle ceir y risg fwyaf. Dylid cyflawni hyn drwy gynlluniau sy'n seiliedig ar risg o fewn y meysydd archwilio ac arolygu.*

**vii. bod yn seiliedig ar asesiad trylwyr o gostau a buddiannau, gan anelu at sicrhau gwerth am arian gan gyrff a archwilir ac a arolygir ac o fewn y cyfundrefnau archwilio ac arolygu eu hunain**

*Mae rhwymedigaeth ar gyrff cyhoeddus i wneud y defnydd gorau o adnoddau cyhoeddus. Dylai unrhyw asesiad o berfformiad ystyried defnydd cyrff cyhoeddus o adnoddau. Wrth wneud hynny mae archwilwyr ac arolygwyr hefyd yn cydnabod y gall cyrff a archwilir ac a arolygir ystyried bod eu hargymhellion yn cyfrannu at bwysau cynyddol ar gostau. Felly, wrth wneud argymhellion sy'n anelu at wella perfformiad, mae archwilwyr ac arolygwyr yn ystyried ymarferoleb a goblygiadau posibl eu hargymhellion o ran adnoddau.*

**viii. gydweithio ag arolygwyr eraill ac asiantaethau adolygu allanol i sicrhau gwell cydlyniant ac ymagwedd fwy cyfannol tuag at asesu perfformiad gwasanaethau cyhoeddus**

*Dylid mabwysiadu ymagwedd 'sefydliad cyfan' drwy well cydlyniant rhwng archwilwyr, arolygwyr ac asiantaethau adolygu allanol eraill. Dylai'r pwyslais ar gysylltu prosesau adolygu allanol, a sicrhau ymagwedd fwy cyfannol, wella dealltwriaeth archwilwyr ac arolygwyr o gyrff a lleihau'r baich ar y rhai a gaiff eu hadolygu.*

**ix. rhannu dysgu i greu dealltwriaeth gyffredin o berfformiad sy'n annog hunanasesiad trylwyr a gwell dealltwriaeth o'u perfformiad gan gyrff a archwilir ac a arolygir**

*Dylai archwiliadau ac arolygiadau gynorthwyo arweinyddiaeth i weithredu newid drwy geisio nodi 'achosion craidd' rhwystrau i welliant, arferion da a ffyrdd o weithredu newid llwyddiannus, a thrwy rannu gwersi a ddysgwyd am yr hyn sy'n gweithio, gyda chyrff a archwilir ac a arolygir ac yn fwy eang i lywio'r broses o lunio polisïau. Dylai crynodebau cenedlaethol o ganlyniadau archwiliadau ac arolygiadau fod yn fwy na disgrifiad yn unig o sawl corff a wnaeth rywbeth penodol. Dylid dysgu gwersi cenedlaethol a lleol am y ffordd y gellir gwella gwasanaethau. Dylai archwilwyr ac arolygwyr gysylltu ag eraill, a chael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch datblygiadau*

*ehangach, er mwyn nodi a rhannu arferion da mewn dulliau llywodraethu a chyflawni gwerth am arian.*

**x. cynnal archwiliadau ac arolygiadau yn wrthrychol gyda phobl fedrus a phrofiadol i safonau uchel, gan ddefnyddio tystiolaeth berthnasol, meini prawf tryloyw, a phrosesau adolygu agored**

*Dylai archwilwyr ac arolygwyr gyflawni eu gwaith mewn dull proffesiynol, mewn ffordd sydd mor effeithlon ac effeithiol, ac amserol â phosibl. Dylai dyfarniadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth o berfformiad yn erbyn meini prawf priodol gan gynnwys cyflawni gwerth am arian ar gyfer y trethdalwr, yn hytrach nag ar dybiaethau.*

14. Mae'r deg egwyddor gyffredinol hon yn sail i'r *Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu* hwn. Maent yn darparu'r fframwaith cysyniadol a ddefnyddir i bennu cwmpas ac amcanion gwaith archwilio ac arolygu.

## Cyflawni egwyddorion cyffredinol archwilio ac arolygu

15. Dylai archwilwyr ac arolygwyr gynllunio a chyflawni eu gwaith i fodloni eu hamcanion a chydymffurfio â'r *Cod*. Nid yw archwilwyr nac arolygwyr yn cymryd lle cyfrifoldebau cyrff a archwilir ac a arolygir i roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau y cynhelir busnes cyhoeddus yn unol â'r gyfraith ac yn unol â safonau priodol, ac y caiff arian cyhoeddus ei ddiogelu ac y rhoddir cyfrif priodol amdano, a'i ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol i gyflawni'r canlyniadau priodol sy'n deillio o'r broses o ddarparu'r gwasanaethau.

16. Dylai canlyniad y cynllunio fod yn gynllun wedi'i ddogfennu sy'n nodi sut mae archwilwyr ac arolygwyr yn bwriadu cyflawni eu cyfrifoldebau, yng ngoleuni eu hasesiad o risgiau. Dylai cynlluniau ddarparu ar gyfer trefniadau dilynol effeithiol i adolygu p'un a yw'r corff a archwilir ac a arolygir wedi ystyried yn briodol unrhyw faterion eisoes a, lle y bo'n briodol, wedi cymryd camau y cytunwyd arnynt. Dylid adolygu'r cynlluniau yn barhaus a'u diweddaru fel y bo angen.

17. Wrth lunio eu hymagwedd, dylai archwilwyr ac arolygwyr:

(a) Cynllunio a chynnal yr archwiliad neu'r arolygiad, ar sail eu hasesiad o risgiau, gan bennu lle i gyfeirio eu gwaith a dyrannu adnoddau i sicrhau bod yr archwiliad neu'r arolygiad wedi'i deilwra i amgylchiadau'r corff a archwilir neu a arolygir. Dylent geisio'r wybodaeth neu'r esboniadau y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol i sicrhau digon o dystiolaeth i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y statud a'r *Cod*. Ni ddisgwylir i archwilwyr ac arolygwyr adolygu pob agwedd ar drefniadau, systemau, prosesau neu gofnodion y corff a archwilir neu a arolygir;

(b) Wrth gynnal archwiliad neu arolygiad, dylent ystyried yr egwyddor, bod angen edrych ar bob rhan o'r archwiliad, a phob arolygiad, yng nghyd-destun rhaglen lawn y gwaith archwilio ac arolygu. Nid oes un rhan yn annibynnol ac mae gwaith mewn perthynas ag un elfen yn llywio gwaith mewn perthynas ag elfennau eraill;

(c) Ystyried y ffaith bod cyrff cyhoeddus yn gweithredu ac yn darparu eu gwasanaethau mewn ystod o bartneriaethau neu ffurfiau eraill o drefniadau gweithio ar y cyd gyda chyrff eraill o'r sector cyhoeddus, y sector gwirfoddol neu'r sector preifat. Mae gan ACC ac archwilwyr penodedig bwerau penodol i ddilyn trywydd arian cyhoeddus a dylent, felly, ystyried p'un a oes angen iddynt ddilyn trywydd arian cyhoeddus i bartneriaethau a threfniadau gweithio ar y cyd o'r fath, ac ar draws y partneriaethau a'r trefniadau hynny;

(d) Trafod gyda'r corff a archwilir neu a arolygir, yr angen i gynhyrchu papurau gweithio a gwybodaeth arall sydd ei hangen ar gyfer archwiliad neu arolygiad yn amserol ac yn effeithiol er mwyn cynnal archwiliad neu arolygiad mewn dull mor effeithlon ac effeithiol â phosibl;

(e) Llunio trefniadau cydlynu effeithiol gydag archwiliad mewnol. Dylai archwilwyr geisio dibynnu cymaint â phosibl ar waith archwiliad mewnol pryd bynnag y bo'n bosibl

(f) Cydweithredu gydag archwilwyr ac arolygwyr allanol eraill, ac, yn achos archwilwyr penodedig, darparu gwybodaeth i ACC (yn lleol ac yn genedlaethol), i alluogi'r ymwybyddiaeth o arferion da i gael ei throsglwyddo'n effeithiol ar draws cyrff cyhoeddus ac o un corff a archwilir neu a arolygir i un arall

(g) Ystyried system ehangach o archwilio, arolygu a rheoleiddio cyrff cyhoeddus, a llunio trefniadau cydlynu effeithiol gydag arolygiaethau statudol eraill i wneud y defnydd gorau o adnoddau archwilio ac arolygu cyffredinol

(h) Mabwysiadu ymagwedd adeiladol a chadarnhaol lle bynnag y bo'n bosibl, gan gynnal ac annog newid gwerth chweil, tra'n darparu dulliau craffu a sicrwydd annibynnol, a chyflawni eu cyfrifoldebau statudol a phroffesiynol.

## Ystyriaethau cyffredinol sy'n ymwneud â chyflwyno adroddiadau ar ganlyniadau archwiliadau ac arolygiadau

18. Dylai archwilwyr ac arolygwyr gynnal cysylltiadau rheolaidd gyda chyrff a archwilir ac a arolygir a sicrhau y trafodir y canfyddiadau sy'n dod i'r golwg ar lefel o fewn y corff a archwilir neu a arolygir y mae archwilwyr ac arolygwyr yn ystyried ei bod yn fwyaf priodol ac yn amserol. Dylai archwilwyr ac arolygwyr ymgynghori â chyrff a archwilir ac a arolygir ynghylch cywirdeb ffeithiol adroddiadau drafft gwaith archwilio ac arolygu.

19. Dylid cyhoeddi holl allbynnau archwiliadau ac arolygiadau yn brydlon ar yr adeg briodol yn y broses archwilio neu arolygu. Dylai archwilwyr ac arolygwyr gyflwyno adroddiadau mewn ffordd sy'n galluogi'r sawl y bwriedir iddynt dderbyn yr allbynnau eu deall:
    - natur a chwmpas y gwaith a wneir;
    - materion o sylwedd neu faterion arwyddocaol sy'n deillio o'r gwaith hwn;
    - casgliadau a dyfarniadau clir ar y materion hyn; a
    - natur a sail unrhyw bryderon, gan nodi unrhyw gamau y gellid eu cymryd i sicrhau gwelliant.

20. Dylai adroddiadau archwilio ac arolygu fod:
    - yn glir ac yn gryno;
    - wedi'u hategu gan dystiolaeth a gwaith dadansoddi a gyflawnwyd gan yr archwilydd neu'r arolygydd;
    - yn berthnasol i anghenion y sawl y bwriedir iddynt dderbyn yr adroddiadau; ac
    - yn eglur o ran eu casgliadau a'u hargymhellion.

21. Dylai argymhellion archwilwyr neu arolygwyr, sy'n deillio o'u gwaith mewn perthynas â'r defnydd o adnoddau neu effeithiolrwydd gwasanaethau:
    - fod yn benodol ynglŷn â pha gamau y dylai'r corff a archwilir neu a arolygir ystyried eu cymryd;
    - bod yn ddefnyddiol, yn ymarferol ac yn seiliedig ar asesiad o fuddiannau eu gweithredu i'r corff a archwilir neu a arolygir;
    - ystyried goblygiadau posibl eu gweithredu i adnoddau.

22. Nid yw cwestiynu rhinweddau polisïau'r corff a archwilir neu a arolygir yn rhan o swyddogaethau archwilwyr neu arolygwyr, ond gallai archwilwyr neu arolygwyr archwilio'r trefniadau a ddefnyddir i ddod i benderfyniadau ynghylch polisïau ac ystyried effeithiau gweithredu'r polisi. Cyfrifoldeb y corff a archwilir neu a arolygir yw penderfynu p'un a ddylid gweithredu unrhyw argymhellion a wneir gan yr archwilwyr neu'r arolygwyr, a sut i wneud hynny. Yn ogystal, wrth wneud unrhyw argymhellion, dylai archwilwyr ac arolygwyr osgoi unrhyw ganfyddiad bod ganddynt unrhyw rôl yn nhrefniadau gwneud penderfyniadau'r corff a archwilir neu a arolygir.

## 3 Archwilio datganiadau ariannol

**Yr ymagwedd gyffredinol ar gyfer pob archwiliad yn cynnwys cyflwyno adroddiad ar y broses o archwilio datganiadau ariannol**

23. Y datganiadau ariannol, sy'n cynnwys cyfrifon cyhoeddedig y corff a archwilir, yw'r dull hanfodol a ddefnyddir gan y corff i roi cyfrif am ei stiwardiaeth o'r adnoddau sydd ar gael iddo a'i berfformiad ariannol wrth ddefnyddio'n adnoddau hynny. Cyfrifoldeb y corff a archwilir yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion;
- cynnal cofnodion cyfrifo priodol;
- paratoi datganiadau ariannol yn unol â gofynion perthnasol.

24. Mae'r corff a archwilir hefyd yn gyfrifol am baratoi a chyhoeddi Datganiad ar Reolaeth Fewnol gyda'i ddatganiadau ariannol.

25. Mae'n ofynnol i archwilwyr archwilio'r datganiadau ariannol a rhoi barn ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys:

(a) p'un a ydynt wedi'u paratoi'n briodol yn unol â deddfwriaeth, cyfarwyddiadau neu reoliadau perthnasol a safonau cyfrifo cymwys

(b) ar gyfer rhai cyrff, ar reoleidd-dra y gwariant a'r incwm neu'r taliadau neu'r derbyniadau.

26. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, dylai archwilwyr roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol:

(a) yn rhydd o gamddatganiadau sylweddol, p'un ai o ganlyniad i dwyll neu afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall;

(b) cydymffurfio â gofynion statudol a gofynion cymwys eraill;

(c) cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon.

27. Dylai archwilwyr adolygu p'un a gyflwynwyd y Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn unol â gofynion perthnasol a nodi os nad yw'n bodloni'r gofynion hynny neu os yw'r Datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall y mae'r archwilydd yn ymwybodol ohoni. Wrth wneud hynny, dylai archwilwyr ystyried y wybodaeth sydd gan y corff a archwilir a gafwyd drwy waith archwilio mewn perthynas â threfniadau'r corff ar gyfer sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o'i adnoddau.

28. Wrth gynnal eu harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn unol â'r *Cod*, dylai archwilwyr gydymffurfio â'r safonau archwilio sydd ar waith ar hyn o bryd, y gellir eu diwygio o bryd i'w gilydd, ac ystyried unrhyw arweiniad a chyngor perthnasol arall, a gyhoeddir gan y Bwrdd Arferion Archwilio, gan gynnwys yr arweiniad a'r cyngor sy'n cwmpasu gwaith yr archwilydd mewn perthynas â Datganiadau ar Reolaeth Fewnol y cyrff a archwilir. Dylai archwilwyr hefyd gydymffurfio â'r Safonau Moesegol sydd ar waith ar hyn o bryd, y gellir eu diwygio o bryd i'w gilydd, a gyhoeddir gan y Bwrdd Arferion Archwilio.

## Llywodraeth leol a chyrff GIG lleol – adroddiadau archwilio

29. Mae adroddiad archwilio archwilwyr penodedig cyrff llywodraeth leol ac ACC fel archwilydd cyrff GIG lleol yn cwmpasu holl gyfrifoldebau'r archwilydd o dan y Ddeddf. Felly, mae'n cynnwys barn yr archwilydd ar y datganiadau ariannol a, chan ystyried y meini prawf perthnasol, barn yr archwilydd o ran p'un a yw'r corff a archwilir wedi rhoi trefniadau priodol ar waith ar gyfer sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau. Nodir y ffynonellau sicrwydd a ddylai fod yn sail i gasgliad yr archwilydd ynghylch trefniadau'r corff a archwilir o ran y defnydd o adnoddau, yn adran 4 o'r *Cod* hwn. Ar gyfer awdurdodau lleol penodedig, mae'r casgliad hwn sy'n ymwneud â'r defnydd o adnoddau yn cynnwys casgliad yr archwilydd penodedig ynglŷn â ph'un a baratowyd a chyhoeddwyd y cynllun gwella yn unol â gofynion perthnasol.

30. Dylai'r adroddiad archwilio hefyd gynnwys, fel eithriad, unrhyw adroddiad gan yr archwilydd penodedig, neu (ar gyfer cyrff GIG lleol) ACC, ar:

- y Datganiad ar Reolaeth Fewnol;
- unrhyw faterion sy'n atal yr archwilydd rhag bod yn fodlon bod y corff a archwilir wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau;
- unrhyw faterion sy'n atal yr archwilydd penodedig rhag dod i'r casgliad bod y cynllun gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion perthnasol (ar gyfer cyrff llywodraeth leol penodedig);
- unrhyw argymhellion sy'n ymwneud â'r archwiliad o'r cynllun gwella, (er enghraifft cyrff llywodraeth leol) sy'n deillio o gyfrifoldebau'r archwilydd penodedig;
- unrhyw argymhellion ynglŷn â ph'un a ddylai ACC gynnal arolygiad o'r corff a ph'un a ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol roi cyfeiriad (ar gyfer cyrff llywodraeth leol penodedig);
- unrhyw gyfeiriadau at y Cynulliad Cenedlaethol (cyrff GIG lleol);

- unrhyw faterion y cyflwynir adroddiad arnynt er budd y cyhoedd yn ystod, neu ar ddiwedd, yr archwiliad;
- unrhyw argymhelliad a wneir [cyf: cymal 25 o'r Mesur ar hyn o bryd] (llywodraeth leol);
- y broses o arfer unrhyw bwerau arbennig eraill yr archwilydd.

31. Mae'n ofynnol i archwilwyr penodedig ardystio'r broses o gwblhau pob archwiliad llywodraeth leol, ac mae'n ofynnol i ACC ardystio'r broses o gwblhau pob archwiliad lleol y GIG. Bydd y dystysgrif yn cau'r archwiliad ac yn nodi'r adeg y bydd cyfrifoldebau'r archwilydd mewn perthynas ag archwilio'r cyfnod a gwmpesir gan y dystysgrif, wedi'u cyflawni.

32. Bydd adegau pan fydd gwaith archwilio mewn perthynas â'r datganiadau ariannol wedi'u cwblhau i raddau helaeth ond na fydd yn bosibl dod â'r archwiliad i ben – er enghraifft, oherwydd bod materion sy'n weddill nas aethpwyd i'r afael â hwy yn deillio o gamau neu gamau posibl o dan y Ddeddf. Dylai archwilwyr penodedig cyrff llywodraeth leol ystyried cyhoeddi eu hadroddiad archwilio, gan gynnwys y farn a'r casgliad ynglŷn â ph'un a yw'r corff a archwilir wedi rhoi trefniadau priodol ar waith ar gyfer sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau, cyn gynted ag y bydd y gwaith archwilio angenrheidiol wedi'i gyflawni, yn amodol ar unrhyw eithriad neu amod arall y gallai fod angen i'r archwilydd ei ystyried. Yn yr un modd, bydd ACC yn ystyried cyhoeddi'r adroddiad archwilio ar gyrff GIG lleol mewn amgylchiadau o'r fath.

33. Yn ogystal â chyhoeddi'r adroddiad archwilio, dylai'r archwilydd sicrhau bod materion a chanfyddiadau allweddol a pherthnasol sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol yn cael eu cynnwys mewn allbynnau eraill o'r archwiliad fel y bo'n briodol. Mae'r allbynnau eraill yn cynnwys:
    - cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
    - llythyr archwilio blynyddol;
    - lle y bo'n briodol, adroddiadau er budd y cyhoedd.

34. Ar gyfer cyrff llywodraeth leol a chyrff GIG lleol mae'r allbynnau hyn yn cynnwys unrhyw faterion allweddol perthnasol sy'n deillio o waith yr archwilydd mewn perthynas â'r defnydd o adnoddau. Felly, mae'r gofynion yn adran 4 y *Cod* hwn ynglŷn â sut y mae archwilwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r allbynnau hyn hefyd yn gymwys iddynt pan fyddant yn cyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag archwilio'r datganiadau ariannol.

### Archwilio datganiadau ariannol y Cynulliad a chyrff cyhoeddus cysylltiedig

35. ACC yw archwilydd allanol statudol datganiadau ariannol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad), datganiadau ariannol a baratoir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, (yn cynnwys cyfrifon cryno GIG Cymru), a datganiadau ariannol ystod eang o gyrff cyhoeddus sydd naill ai'n cael eu noddi gan y Cynulliad, neu sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad. Yn ogystal, mae ACC yn archwilydd allanol ar rai cyfrifon drwy gytundeb, yn hytrach na thrwy statud.

36. Dylai archwilwyr sy'n gweithio ar ran ACC ystyried cyfrifoldebau archwilwyr a grynhoir yn llythyr dealltwriaeth ACC (ar gyfer archwiliadau statudol) neu lythyr ymgysylltiad (ar gyfer archwiliadau drwy gytundeb) gyda phob corff a archwilir, sy'n parhau mewn grym, hyd nes iddynt gael eu disodli gan ddatganiad cyfrifoldebau perthnasol.

37. Ar gyfer archwiliadau statudol, mae'n ofynnol i ACC ardystio a chyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r archwiliad blynyddol o'r cyfrifon. Dylai'r ACC gyfeirio'r dystysgrif archwilio at Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylai'r dystysgrif gynnwys barn ACC ar:

- p'un a yw'r cyfrifon yn rhoi barn wir a theg ar sefyllfa'r corff a'u bod wedi'u paratoi'n briodol yn unol â deddfwriaeth berthnasol a safonau cyfrifo cymwys;
- p'un a yw'r incwm a'r gwariant wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

38. O ran y cyfrifon sy'n ymwneud â'r GIG yng Nghymru, mae hefyd yn ofynnol i'r ACC gyflwyno cyfrifon archwiliedig cyrff unigol y GIG gerbron y Cynulliad.

39. Dylai'r dystysgrif naill ai gynnwys y datganiad '*Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn*' (a elwir yn 'dim adroddiad'), neu gyfeirio'r darllenydd at adroddiad naratif sylweddol ACC a gyhoeddir gyda'r cyfrifon hyn.

40. Gall ACC gyflwyno adroddiad sylweddol ar set o gyfrifon. Dylai archwilwyr ystyried p'un a fyddai'n briodol paratoi adroddiad sylweddol ar ran ACC a dylai bob amser wneud hynny mewn achosion lle y mae barn ACC yn amodol. Dylid cyflwyno adroddiad sylweddol hefyd ar unrhyw fater y mae ACC yn bwriadu cyfeirio sylw darllenwyr y cyfrifon ato heb wneud y farn archwilio yn amodol. Mae enghreifftiau o faterion o'r fath yn cynnwys pryderon sy'n ymwneud â phriodoldeb neu'r dull priodol o gynnal busnes cyhoeddus.

41. Lle y bydd ACC yn cyhoeddi adroddiad sylweddol ar gyfrifon i Aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, dylai'r ACC dynnu sylw Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad at hyn er mwyn galluogi i'r pwyllgor ystyried p'un a ddylid galw ar y Swyddog Cyfrifo perthnasol i ddod ger ei fron i roi tystiolaeth ar lafar ar gynnwys yr adroddiad.

42. Ar ôl cwblhau pob archwiliad, dylai archwilwyr sy’n cynnal yr archwiliad ar ran ACC sicrhau y caiff y materion a’r canfyddiadau allweddol perthnasol sy’n deillio o’r archwiliad eu trosglwyddo i’r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu.

43. Yn ogystal â chyflwyno adroddiad i’r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu mewn Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, dylai’r archwilydd hefyd gyflwyno adroddiad, fel sy’n ofynnol gan ACC, i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar faterion sy’n deillio o’r archwiliad.

## Archwilio cyrff bach

44. Bydd amgylchiadau lle y gallai agweddau ar y *Cod* a allai fod yn gymwys fod yn amhriodol i’r broses o archwilio rhai cyrff, er enghraifft oherwydd y symiau gweddol fach o arian cyhoeddus a reolir gan y cyrff dan sylw.Wrth gynnal archwiliad o gyrff o’r fath dylai archwilwyr gymhwyso’r *Cod* i’r graddau sydd, yn eu barn hwy, yn briodol, gan ystyried unrhyw arweiniad perthnasol a gyhoeddir gan ACC. Wrth gynnal archwiliad o gyrff y mae eu hincwm blynyddol neu eu gwariant blynyddol yn is na therfyn ariannol penodedig, ar ôl ymgynghori â chyrff cyhoeddus, gan ACC o bryd i’w gilydd, dylai archwilwyr gymhwyso atodlen 1 y *Cod* hwn i’w harchwiliadau os cânt eu cyfarwyddo i wneud hynny gan ACC.

## Archwilio datganiadau ariannol cryno

45. Yn ogystal â’u cyfrifon statudol blynyddol llawn, gallai rhai cyrff a archwilir ddewis cynhyrchu datganiadau ariannol cryno i’w cyhoeddi o fewn eu Hadroddiad Blynyddol. Wrth gynnal adolygiad o ddatganiadau cryno o’r fath, y dylid eu paratoi yn unol â gofynion perthnasol, dylai archwilwyr gydymffurfio ag arweiniad a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio.

## 4 Archwilio ac asesu perfformiad gwasanaethau cyhoeddus gan ACC a'i archwilwyr penodedig

46. Cyfrifoldeb y corff a archwilir ac a arolygir yw rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau, ac i sicrhau dull stiwardio a llywodraethu priodol, ac adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny yn rheolaidd. Mae trefniadau o'r fath yn rhan allweddol o reolaeth fewnol ac maent yn cynnwys:

- sefydlu a monitro'r broses o gyflawni amcanion strategol a gweithredol;
- polisi a phrosesau gwneud penderfyniadau'r corff;
- trefniadau i sicrhau bod gwasanaethau yn diwallu anghenion defnyddwyr a threthdalwyr, ac i ymgysylltu â'r gymuned ehangach;
- trefniadau i sicrhau cydymffurfiad â pholisïau, gweithdrefnau, cyfreithiau a rheoliadau sefydledig;
- nodi, gwerthuso a rheoli risgiau a chyfleoedd gweithredol ac ariannol gan gynnwys y rhai sy'n deillio o gysylltiad â phartneriaethau a gweithio ar y cyd;
- lle y bo'n gymwys, trefniadau i sicrhau cydymffurfiad â dyletswydd gyffredinol gwerth gorau;
- y trefniadau ar gyfer rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill, gan gynnwys systemau rheolaeth ariannol fewnol, a threfniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar wybodaeth ariannol;
- dull rheoli perfformiad y corff, gan gynnwys trefniadau i sicrhau ansawdd data;
- trefniadau i sicrhau y caiff busnes y corff a archwilir ei reoli yn unol â safonau ymddygiad ariannol priodol ac i atal a chanfod twyll a llygredd.

47. Mae'r corff a archwilir ac a arolygir yn gyfrifol am gyflwyno adroddiad ar y trefniadau hyn fel rhan o'i Ddatganiad blynyddol ar Reolaeth Fewnol.

## Astudiaethau gwerth am arian y Cynulliad a'i gyrff cysylltiedig

48. Er mwyn llywio'r broses o baratoi rhaglen gwerth am arian flynyddol ACC, dylai archwilwyr, ar ran ACC, fonitro datblygiadau ar draws y cyrff a'r sectorau y mae gan ACC rym statudol i gynnal ymchwiliadau o'r fath iddynt. Wrth bennu pynciau ar gyfer astudiaethau gwerth am arian dylai ACC, ac archwilwyr ar ran ACC, ystyried y risg i ddulliau gwerth am arian (o ran darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd), gan ystyried:

    - y cwmpas i ACC ychwanegu gwerth drwy'r rhaglen gwaith gwerth am arian – drwy effaith ariannol neu drwy wella gwasanaethau cyhoeddus;
    - yr angen am gymysgedd o astudiaethau – rhai ohonynt yn eang eu cwmpas gyda gwaith maes sylweddol mewn cyrff lleol, a rhai â chwmpas mwy penodol – a rhaglen gyffredinol y gellir ei chyflawni;
    - y cyfle i gynnal astudiaethau ochr yn ochr â gwaith ACC ac archwilwyr penodedig ar draws sectorau;
    - yr angen i gwmpasu'r maes archwilio yn systematig dros amser, gan adlewyrchu perthnasedd y gwariant ac arwyddocâd gweithgareddau;
    - ymrwymiadau presennol, gan gynnwys cynnal gwaith dilynol mewn perthynas â meysydd a astudiwyd yn flaenorol;
    - meysydd sydd o ddiddordeb arbennig i Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad;
    - p'un a yw'r ACC yn cynnal cyfres o astudiaethau ar bwnc neu thema arbennig mewn cyrff gwahanol a archwilir;
    - y cwmpas ar gyfer cyflawni gwaith ar y cyd, a pha mor ddymunol yw hynny, yn arbennig gan sefydliadau archwilio eraill yn y DU.

49. Bob blwyddyn dylai'r ACC ymgynghori â chyrff archwilio perthnasol ac uwch swyddogion yn Llywodraeth Cynulliad Cymru ac o fewn cyrff sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad ar raglen astudiaethau gwerth am arian ddrafft i gychwyn y flwyddyn ganlynol.

50. Mae'n ofynnol i ACC ystyried safbwyntiau Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad wrth lunio'r rhaglen gwaith gwerth am arian (er mai'r ACC sydd â'r penderfyniad terfynol, yn unol ag egwyddor annibyniaeth). Dylai'r ACC felly gyflwyno'r rhaglen arfaethedig i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod yr hydref er mwyn iddo ei hystyried. Dylai'r ACC ystyried safbwyntiau'r pwyllgor, cyn penderfynu ar y rhaglen derfynol o astudiaethau i gychwyn y flwyddyn ganlynol. Dylai'r ACC hysbysu'r pwyllgor, a rhanddeiliaid eraill, o'r rhaglen drwy femorandwm, ond ACC sy'n cadw'r hawl i ddiwygio'r rhaglen yng ngoleuni amgylchiadau sy'n newid.

## Cyfrifoldebau mewn perthynas â threfniadau llywodraeth leol a chyrff GIG lleol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

51. Mae archwilwyr penodedig cyrff llywodraeth leol yn gyfrifol am fodloni eu hunain bod cyrff a archwilir wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol yn eu defnydd o adnoddau. Mae gan ACC gyfrifoldeb tebyg fel archwilydd cyrff GIG lleol. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn dylai archwilwyr adolygu a, lle y bo'n briodol, archwilio tystiolaeth sy'n berthnasol i drefniadau rheoli perfformiad a rheoli ariannol y corff a archwilir a chyflwyno adroddiad ar y trefniadau hyn. Mae archwilwyr penodedig awdurdodau lleol penodol hefyd yn gyfrifol am ystyried cydymffurfiad y corff a archwilir â gofynion statudol o ran paratoi a chyhoeddi ei gynllun gwella, a chyflwyno adroddiad ar hynny.

52. Ffynonellau sicrwydd archwilwyr wrth gyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â threfniadau cyrff a archwilir ar gyfer sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau yw:
    - system rheoli ariannol llawn y corff a archwilir fel y nodir yn ei Ddatganiad ar Reolaeth Fewnol;

- canlyniadau gwaith arolygiaethau statudol os caiff canlyniadau'r gwaith effaith ar eu cyfrifoldebau;
- gwaith a nodir gan ACC, neu waith arall a gyflawnir gan ACC, i ategu'r gwaith o gyflawni swyddogaethau ACC;
- unrhyw waith arall sy'n angenrheidiol yn eu barn hwy er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau.

53. Dylai archwilwyr ddibynnu ar ganlyniadau gwaith arolygiaethau statudol mewn perthynas â pherfformiad corfforaethol neu berfformiad gwasanaethau heb gynnal gweithdrefnau i asesu ansawdd y gwaith a gyflawnir a heb ailgyflawni unrhyw ran o'r gwaith.

*Ystyriaethau o ran cynllunio gwaith archwilio ac arolygu lleol mewn perthynas â darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd*

54. Wrth gynllunio gwaith archwilio perfformiad lleol, neu (lle y bo'n berthnasol mewn cyrff llywodraeth leol penodedig) waith arolygu, dylai archwilwyr ac arolygwyr ystyried ac asesu'r risgiau busnes arwyddocaol perthnasol, hynny yw, y risgiau gweithredol ac ariannol arwyddocaol hynny a allai atal y corff a archwilir rhag cyflawni eu swyddogaethau a'i amcanion statudol. Bydd y risgiau hyn yn ymwneud â'r corff a archwilir neu a arolygir ac yn berthnasol i gyfrifoldebau archwilio neu arolygu, a'r trefniadau y mae wedi'u rhoi ar waith i reoli'r risgiau hyn. Mae asesu beth sy'n arwyddocaol yn ymwneud â barn broffesiynol ac yn golygu ystyried yr agweddau meintiol ac ansoddol ar yr eitem neu'r cynnwys dan sylw.

55. Dylai asesiad archwilwyr ac arolygwyr o risg, y dylent ei drafod gyda'r corff a archwilir neu a arolygir, adlewyrchu eu hystyriaeth o berthnasedd ac arwyddocâd y risgiau busnes posibl a wynebir gan bob corff o fath arbennig, a risgiau eraill sy'n ymwneud yn benodol â chyrff unigol a archwilir. Dylai archwilwyr ac arolygwyr hefyd ystyried asesiad y corff ei hun o'r risgiau y mae'n eu hwynebu a'r trefniadau a roddwyd ar waith gan y corff i reoli a mynd i'r afael â'i risgiau. Wrth asesu risgiau mewn

perthynas â darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd dylai arolygwyr ystyried:

- tystiolaeth a gafwyd o waith archwilio ac arolygu blaenorol, gan gynnwys ymateb y corff i adroddiadau archwilio ac arolygu blaenorol;
- hanes y corff a archwilir neu a arolygir o wella ei berfformiad gan gydnabod bod methiant i wella, ynddo'i hun yn risg busnes;
- gwaith arolygiaethau statudol eraill.

56. Ar sail eu hasesiad risg dylai archwilwyr ac arolygwyr gynllunio eu gwaith a phenderfynu p'un a ddylid:
    - amlygu'r risg i'r corff a archwilir neu a arolygir;
    - gohirio unrhyw waith pellach yng ngoleuni gwaith presennol neu waith a gynllunnir gan y corff neu asiantaethau adolygu eraill;
    - cyflawni unrhyw waith mewn perthynas â risgiau penodol er mwyn ffurfio barn ar ddigonolrwydd agweddau ar ddull stiwardio a llywodraethu'r corff, cynllunio a darparu gwasanaethau, rheoli perfformiad a threfniadau rheoli ariannol.

57. Wrth ystyried p'un a ddylid cyflawni gwaith mewn perthynas â risg arbennig, dylai archwilwyr ac arolygwyr ystyried sut y gallent gyfrannu at wella'r broses o gyflawni swyddogaethau'r corff a archwilir neu a arolygir. Gallai gwaith archwilio neu arolygu perfformiad gynnwys:
    - gwaith gydag awdurdodau ar lunio cwmpas a chynllunio adolygiadau;
    - arolygiadau llawn wedi'u trefnu gydag adroddiad a allai gael ei gyhoeddi;
    - cymhwyso methodolegau archwilio neu arolygu perfformiad eraill sydd wedi'u teilwra'n benodol.

58. Gallai gwaith o'r fath gynnwys gweithio gydag eraill er mwyn asesu pa mor dda yr eir i'r afael â risgiau sy'n deillio o gysylltiad y corff a archwilir neu a arolygir â phartneriaethau neu drefniadau gweithio ar y cyd eraill.

## Astudiaethau cenedlaethol o wasanaethau llywodraeth leol

59. Mae gan ACC gyfrifoldeb o dan [cyfeiriad at y Ddeddf] i gynnal astudiaethau 'gwerth am arian' ar draws llywodraeth leol yng Nghymru. Cyfeirir at waith a gyflawnir o dan y pwerau hyn fel astudiaethau cenedlaethol er y gallai astudiaethau unigol gwmpasu gwasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru gyfan neu ddetholiad o gyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Mae astudiaethau yn galluogi ACC i wneud cymariaethau ar draws ystod o gyrff llywodraeth leol, ac, ar y cyd â phwerau ACC yn y sector iechyd a sectorau eraill, hwyluso'r broses o gynnal astudiaethau, a chyflwyno adroddiadau, ar sail gymunedol.

60. Wrth bennu'r rhaglen o astudiaethau i'w chyflawni ar draws cyrff llywodraeth leol, dylai ACC ystyried y cyfle i gynnal astudiaethau ar y cyd â gwaith ACC mewn sectorau eraill lle y byddai manteision i wneud gwaith wedi'i gydlynu.

61. Gallai ACC nodi risgiau sy'n ymwneud â'r defnydd o adnoddau a wynebir gan bob corff llywodraeth leol o fath arbennig neu o fewn sector. Yng ngoleuni'r risgiau hyn gallai ACC gynllunio rhaglenni arolygu neu astudiaethau sy'n gofyn am sylwebaeth gynhwysfawr gan archwilwyr neu arolygwyr i alluogi cymariaethau i gael eu gwneud. Gallai ACC nodi elfennau ychwanegol o waith i'w cyflawni gan archwilwyr penodedig sy'n ategu ei hymagwedd sy'n seiliedig ar risg tuag at gynllunio'r archwiliad.

## Cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar ganlyniadau archwiliadau a gynhaliwyd gan ACC o berfformiad gwasanaethau cyhoeddus

62. Gallai adroddiadau gwerth am arian ACC a chyrff cysylltiedig gael eu cyhoeddi a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad. Gallai Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad ystyried yr adroddiadau hyn drwy gymryd tystiolaeth gan swyddogion cyfrifon neu swyddogion cyfrifol perthnasol y cyrff sy'n cael eu harchwilio a chyhoeddi ei adroddiadau ei hun yn dilyn hynny. Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru, o dan Reolau Sefydlog y Cynulliad, ymateb yn gyhoeddus i adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio o fewn 30 diwrnod gwaith.

## Cyflwyno adroddiadau ar ystyriaethau mewn perthynas â pherfformiad cyrff GIG lleol a chyrff llywodraeth leol

*Ystyriaethau mewn perthynas â chyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad mewn perthynas â chyrff GIG lleol*

63. Mae gan ACC bwerau i gyflwyno adroddiadau gerbron y Cynulliad ar gyrff GIG unigol a dylent wneud hynny os, ym marn ACC, y bydd angen cyflwyno adroddiad ar fater sy'n ymwneud â stiwardio, llywodraethu neu berfformiad corff er budd atebolrwydd y cyhoedd. Dylai archwilwyr sy'n gweithio ar ran ACC, felly ystyried p'un a ddylid paratoi adroddiad i'w gyhoeddi os daw materion arwyddocaol sy'n ymwneud â rheoleidd-dra, priodoldeb, gwerth am arian neu faterion eraill sy'n ymwneud â chynnal busnes cyhoeddus yn briodol i'w sylw yn ystod eu gwaith ar gyrff o'r fath.

64. Lle y bydd rhaglen gwerth am arian ACC yn cynnwys astudiaethau ar GIG Cymru, gallai'r rhain ymgorffori gwaith a gyflawnir ar archwiliadau o gyrff GIG unigol, neu wybodaeth a geir o archwiliadau o'r fath. Wrth gyflawni gwaith i ategu astudiaethau o'r fath, dylai archwilwyr drafod cwmpas a chanfyddiadau'r gwaith gyda'r cyrff dan sylw.

*Ystyriaethau sy'n ymwneud â chyflwyno adroddiadau i gyrff GIG lleol a chyrff llywodraeth leol*

65. Cyflwynir adroddiad ar ganlyniadau gwaith archwilio ac arolygu lleol i gyrff unigol a archwilir ac a arolygir mewn ystod o allbynnau sy'n cynnwys:

(a) adroddiadau ar lafar a/neu adroddiadau ysgrifenedig neu femoranda i swyddogion a, lle y bo'n briodol, i aelodau, ar ganlyniadau, neu faterion sy'n deillio o, agweddau penodol ar waith archwilwyr ac arolygwyr;

(b) adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn crynhoi gwaith yr archwilydd;

(c) llythyr archwilio blynyddol neu, ar gyfer y cyrff hynny y mae ACC yn eu harolygu, llythyr archwilio ac arolygu blynyddol cryno i'r corff a archwilir ac a arolygir;

(d) adroddiadau arolygu ac asesiadau o berfformiad.

Yn ogystal, mae archwilwyr penodedig cyrff llywodraeth leol, ac ACC fel archwilydd cyrff GIG lleol, yn cynnwys o fewn eu hadroddiad archwilio blynyddol gasgliad ynglŷn â ph'un a yw'r corff a archwilir wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau – gweler adran 3.

(a) <u>Adroddiadau neu femoranda ar agweddau unigol ar waith archwilio neu arolygu</u>

66. Gallai archwilwyr ac arolygwyr gyflwyno adroddiad ar ganlyniadau elfennau penodol neu rannau o archwiliadau neu arolygiadau, mewn adroddiadau, memoranda neu gyflwyniadau â thystiolaeth briodol. Dylid paratoi a chyhoeddi adroddiadau, memoranda neu gyflwyniadau o'r fath a'u cyhoeddi neu eu darparu cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau'r gwaith.

(b) Adroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

67. Dylai adroddiadau archwilwyr i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu gwmpasu'r ystod lawn o gyfrifoldebau archwilwyr o dan y statud a'r *Cod*. Fodd bynnag, nid oes angen i'r adroddiadau hyn ddyblygu materion arwyddocaol a drosglwyddwyd yn flaenorol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, er enghraifft drwy adroddiadau, memoranda neu gyflwyniadau ar ddarnau penodol o waith archwilio yn ystod y flwyddyn. Dylai archwilwyr fodloni eu hunain bod yr adroddiadau hyn yn cael eu hystyried ar y lefel fwyaf priodol yn eu barn hwy, o fewn y corff a archwilir neu a arolygir.

(c) Llythyrau archwilio blynyddol a llythyrau archwilio ac arolygu blynyddol

68. Diben paratoi a chyhoeddi llythyrau archwilio blynyddol yw cyfleu'r materion allweddol sy'n deillio o waith archwilwyr i'r corff a archwilir ac i randdeiliaid allanol allweddol, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd. Y materion hyn yw'r rhai yr ystyria archwilwyr y dylid tynnu sylw'r corff a archwilir atynt.

69. Er na phennir union fformat y llythyr, dylai gael ei baratoi yn unol a'r arweiniad a gyhoeddwyd o bryd i'w gilydd gan ACC a dylai amlygu'r materion allweddol sy'n deillio o adroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a chasgliadau archwilwyr ar agweddau perthnasol ar yr archwiliad. Dylai hefyd gwmpasu'r gwaith a gyflawnwyd ers cyhoeddi'r llythyr blynyddol blaenorol. Dylid ei baratoi gan ddefnyddio iaith glir, cryno a hygyrch i gynulleidfa eang.

70. Dylid cyfeirio'r llythyr archwilio blynyddol at holl aelodau'r corff a archwilir a dylai'r archwilydd sicrhau bod yr holl aelodau yn derbyn copi. Lle na fydd y corff a archwilir yn trefnu i'w ddosbarthu i bob aelod, dylai'r archwilydd wneud y trefniadau angenrheidiol. Er nad yw'n ofyniad statudol i bob corff a archwilir gyhoeddi ei lythyrau archwilio blynyddol dylai archwilwyr annog y cyrff hyn i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod y llythyrau ar gael.

71. Dylai'r archwilydd gyhoeddi'r llythyr archwilio blynyddol i'r corff a archwilir cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau'r archwiliad ac, ar wahân i amgylchiadau eithriadol, heb fod yn hwyrach na dyddiad i'w bennu gan ACC, yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hi.

72. Lle y bydd ACC yn cynnal arolygiadau, dylai archwilwyr penodedig ddarparu gwybodaeth i ACC ar y materion allweddol sy'n deillio o'u gwaith archwilio , yn unol ag arweiniad a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan ACC, i alluogi ACC i baratoi a dosbarthu lythyr archwilio ac arolygu blynyddol i'r cyrff archwiliedig ac arolygiedig. Dylai'r llythyr archwilio ac arolygu blynyddol gynnwys crynodeb o waith archwilio ac arolygu, cynydd yn erbyn cynlluniau gwella a tynnu ar adroddiadau a gyhoeddir gan arolygiaethau eraill er mwyn darparu crynodeb blynyddol i'r corff archwiliedig ac arolygiedig.

(d) Adroddiadau arolygu ac asesiadau o berfformiad cyrff llywodraeth leol

73. Dylid cyflwyno adroddiad ar waith arolygu i gyrff unigol a arolygir. Gellir cyflwyno adroddiad mewn ystod o fformatau, fel y bo'n briodol:

- cyflwyniad ar lafar neu weithdy;
- adroddiad ysgrifenedig i'r corff a archwilir;
- adroddiad ysgrifenedig a allai gael ei sgorio a'i gyhoeddi.

74. Yn ogystal, yn dilyn arolygiadau a gynhelir ym mhob awdurdod lleol neu o fewn llawer ohonynt, gellid cynhyrchu adroddiad cenedlaethol yn crynhoi canfyddiadau a chasgliadau, a gellid ei gyhoeddi.

# 5 Cyfrifoldebau eraill ACC ac archwilwyr penodedig

## Adroddiadau er budd y cyhoedd – llywodraeth leol a chyrff GIG lleol

75. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr penodedig cyrff llywodraeth leol, ac ACC fel archwilydd cyrff GIG lleol, ystyried p'un a ddylent, er budd y cyhoedd, gyflwyno adroddiad ar unrhyw fater a ddaw i'w sylw yn ystod yr archwiliad er mwyn iddo gael ei ystyried gan y corff dan sylw neu er mwyn hysbysu'r cyhoedd o'r mater.

76. Dylai archwilwyr ystyried p'un a yw'n ofynnol, er budd y cyhoedd, i unrhyw fater o'r fath fod yn destun adroddiad ar y pryd yn hytrach nag adroddiad i'w gyflwyno ar ddiwedd yr archwiliad. Dylid cyflwyno adroddiad er budd y cyhoedd lle y cred archwilwyr fod mater yn ddigon pwysig i hysbysu'r corff dan sylw neu'r cyhoedd ohono ar frys.

77. Wrth baratoi a chyhoeddi adroddiadau er budd y cyhoedd dylai archwilwyr deilwra eu hymagwedd fel ei bod yn cyfateb â natur frys ac arwyddocâd eu pryderon.

## Egwyddorion sy'n ymwneud ag arfer pwerau a dyletswyddau penodol archwilwyr a benodir gan lywodraeth leol

78. Yn ogystal â swyddogaethau cyffredinol archwilwyr penodedig a nodir mewn adrannau eraill o'r *Cod* hwn, mae gan archwilwyr penodedig cyrff llywodraeth leol bwerau a dyletswyddau penodol o dan [cyfeiriad at yr adran berthnasol yn y Ddeddf]. Wrth arfer unrhyw un o'r pwerau a'r dyletswyddau hyn dylai archwilwyr deilwra eu hymagwedd i amgylchiadau penodol y materion dan sylw.

79. Lle y gwneir unrhyw gynrychioliadau neu lle y darperir gwybodaeth sy’n berthnasol i’r archwiliad, neu os daw materion sy’n berthnasol i’r archwiliad i’w sylw fel arall, dylai archwilwyr ystyried p’un a oes angen ymchwilio i’r mater a chymryd camau o dan eu pwerau penodol neu p’un a ellir ei ystyried yn fwy effeithiol o fewn rhaglenni gwaith a gynllunnir a threfniadau cofnodi archwiliadau o dan eu pwerau archwilio cyffredinol.

80. Wrth ystyried p’un a ddylid arfer unrhyw un o’u pwerau penodol o dan y Ddeddf, dylai archwilwyr penodedig gymhwyso ymagwedd gytbwys a chymesur tuag at bennu’r amser y dylid ei dreulio a’r adnoddau i’w defnyddio i ddelio â materion a ddaw i’w sylw. Dylent ystyried:

- arwyddocâd y pwnc dan sylw;
- p’un a oes budd cyhoeddus ehangach yn gysylltiedig â’r materion sy’n codi;
- costau delio â’r mater gan gofio mai cyfrifoldeb uniongyrchol y trethdalwr yw talu am hyn;
- yn achos gwrthwynebiadau, hawliau’r rhai sy’n destun y gwrthwynebiad a’r gwrthwynebwr.

81. Dylai archwilwyr penodedig wrthod unrhyw wrthwynebiadau nad ydynt yn datgelu unrhyw achos rhesymol dros weithredu, sy’n wamal neu’n drallodus, neu sydd fel arall yn camddefnyddio’r broses archwilio.

## Gwaith ymchwiliol arall gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran ACC

82. Gan ddefnyddio pwerau mynediad perthnasol, gall Swyddfa Archwilio Cymru, ar sail ei disgresiwn, ymgymryd â gwaith ymchwiliol arall ar ran ACC – y tu allan i archwilio cyfrifon ac archwilio gwerth am arian llawn. Er enghraifft, nod Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu, lle y bo'n briodol ac yn ymarferol, ymatebion llawn i'r ohebiaeth a dderbynnir. Oherwydd ei natur, nid yw'r gwaith wedi'i gynllunio ond gall fynnu adnoddau sylweddol. Lle y bydd canlyniadau archwiliadau nas cynllunnir o'r fath yn gwarantu hynny, weithiau bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi adroddiad ar y canlyniad.

*Ymgynghoriad drafft yn ddyddiedig Awst 2004*

## Atodlen 1: Archwilio cyrff bach

*Llywodraethu ac atebolrwydd*

A1. Cyfrifoldeb cyrff bach (fel y diffinnir gan ACC yn unol ag adran 3 y *Cod*) yw rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau y gweithredir eu materion ariannol yn briodol, a monitro digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny yn ymarferol. Mae'n ofynnol i gyrff bach baratoi eu cyfrifon yn unol â'r cyfrifoldebau statudol, a chynnal system archwiliad mewnol ddigonol o ran eu cofnodion cyfrifo a'u systemau rheoli.

A2. Mae cyrff bach yn bodloni eu cyfrifoldebau drwy baratoi a chyhoeddi'r cyfrifon a baratoir ar gyfer y flwyddyn ariannol, a'u darparu i'r archwilydd. Yn ogystal â hyn, darperir unrhyw wybodaeth ac esboniadau eraill sydd eu hangen i roi digon o dystiolaeth eu bod wedi cynnal systemau rheolaeth fewnol ac archwiliad mewnol digonol yn ystod y flwyddyn ariannol.

*Yr ymagwedd archwilio*

A3. Dylai archwilwyr cyrff bach gynnal archwiliad o'r cyfrifon blynyddol a gwybodaeth ac esboniadau ychwanegol a ddarperir gan y corff.

A4. Dylai archwilwyr gyflawni eu cyfrifoldebau drwy:

- adolygu'r cydymffurfiad â'r gofynion ar gyfer paratoi'r cyfrifon blynyddol;
- cynnal adolygiad dadansoddol lefel uchel o wybodaeth ariannol a gwybodaeth arall a ddarperir i'r archwilydd;
- adolygu'r wybodaeth a'r esboniadau ychwanegol sydd eu hangen er mwyn darparu digon o dystiolaeth bod y corff wedi cynnal system rheolaeth fewnol ac archwiliad mewnol ddigonol drwy gydol y flwyddyn ariannol.

A5. Lle, ar sail adolygiad yr archwilydd, y bydd angen tystiolaeth bellach ar yr archwilydd o ran unrhyw fater perthnasol, dylid cynnal profion ychwanegol i fynd i'r afael â phryderon yr archwilydd.

A6. Pan fydd yr archwilydd wedi cwblhau archwiliad o'r cyfrifon blynyddol a gwybodaeth ac esboniadau ychwanegol a ddarperir bydd yr archwilydd yn rhoi barn ar y cyfrifon ac yn ardystio cwblhau'r archwiliad. Rhydd archwilwyr sicrwydd ar ffurf barn o ran p'un a yw'r cyfrifon ac unrhyw wybodaeth arall a ddarparwyd, ar sail eu hadolygiad, yn unol â'r gofynion penodedig ac nad oes unrhyw faterion wedi dod i'w sylw sy'n rhoi achos i bryderu nad yw deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoliadol wedi'u bodloni.

*Ymgynghoriad drafft yn ddyddiedig Awst 2004*

# Atodiad 1: Rhestr termau

**Aelodau**

Aelodau etholedig neu benodedig cyrff llywodraeth leol sy'n gyfrifol am y broses gyffredinol o gyfeirio a rheoli'r corff a archwilir. (Gweler hefyd 'y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' a 'corff a archwilir'.)

**Archwiliad**

Y broses o archwilio cyfrifon corff a archwilir sy'n cynnwys archwilio'r datganiadau ariannol a gwaith arall i gyflawni cyfrifoldebau statudol eraill archwilwyr [cyfeiriadau at ddeddfwriaeth berthnasol].

**Archwilydd/Archwilwyr**

ACC, staff archwilio Swyddfa Archwilio Cymru neu gyflenwr archwiliadau wrth gyflawni swyddogaethau archwilio. Defnyddir y term 'archwilydd penodedig' hefyd yn y Cod – gweler uchod.

**Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC)**

Y deiliad swydd a benodir o dan Adran 90 Deddf Llywodraeth Leol Cymru 1998. ACC yw archwilydd allanol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gyrff cyhoeddus cysylltiedig yn cynnwys cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau GIG. Mae ACC yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru ac yn cyflawni gwaith gwerth am arian ac astudiaethau perfformiad ar wasanaethau llywodraeth leol ac arolygiadau o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella. ACC yw pennaeth Swyddfa Archwilio Cymru a'i Swyddog Cyfrifo.

**Archwilydd Penodedig**

Archwilydd, a allai fod yn aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru neu gwmni sy'n darparu gwasanaethau archwilio, sy'n archwilydd corff llywodraeth leol a benodwyd gan ACC o dan [cyf]. Mae'n ofynnol i archwilwyr penodedig cyrff llywodraeth leol gydymffurfio â rhannau perthnasol o'r Cod hwn sy'n cyfateb â'r cod ymarfer statudol o dan [cyf].

**Arolygiaethau**

Mae'r disgrifiad cyffredinol hwn yn cwmpasu'r sefydliadau hynny sy'n gyfrifol am gynnal arolygiadau ac asiantaethau adolygu eraill sydd â chyfrifoldebau rheolaidd mewn perthynas â chyrff cyhoeddus.

**Astudiaethau cenedlaethol o wasanaethau llywodraeth leol**

Mae ACC yn gyfrifol o dan [cyfeiriad at y Ddeddf] i gynnal astudiaethau 'gwerth am arian' ar draws llywodraeth leol yng Nghymru. Cyfeirir at waith a gyflawnir o dan y pwerau hyn fel astudiaethau cenedlaethol er y gallai

astudiaethau unigol gwmpasu gwasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru gyfan neu gyrff llywodraeth leol penodedig yng Nghymru. Gweler hefyd 'astudiaethau gwerth am arian'.

**Bwrdd Arferion Archwilio**

Y bwrdd sy'n gyfrifol am gyhoeddi safonau archwilio ac arweiniad arall i archwilwyr yn y DU. Ei amcanion yw sefydlu safonau archwilio uchel sy'n diwallu anghenion datblygedig defnyddwyr gwybodaeth ariannol a sicrhau hyder y cyhoedd yn y broses archwilio.

***Cod* (y)**

Y *Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu .*

**Corff a archwilir**

Corff a archwilir gan ACC neu gorff y mae ACC yn gyfrifol am benodi archwilydd allanol ar ei gyfer, sy'n cynnwys aelodau o'r corff a'i dîm rheoli (uwch swyddogion y corff). Aelodau'r corff a archwilir yw'r rhai sy'n gyfrifol am ei lywodraethu. (Gweler hefyd 'aelodau' a'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'.)

**Cyfarwyddwyr**

Aelodau o'r bwrdd sy'n gyfrifol ar y cyd ac yn unigol am gyfeiriad a rheolaeth gyffredinol y corff a archwilir. (Gweler hefyd 'y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' a 'corff a archwilir'.)

**Cynllun Gwella/Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella**

Y cynllun gwella yw'r cynllun y mae'n ofynnol i gyrff llywodraeth leol ei gyhoeddi yn flynyddol o dan adran 6 Deddf Llywodraeth Leol 1999, a ategir gan arweiniad a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mewn perthynas â'u dyletswydd statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y caiff eu swyddogaethau eu harfer, gan ystyried cyfuniad o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Mae'r Cynulliad wedi sefydlu Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella er mwyn ceisio gweithredu gofynion sy'n ymwneud â'r ddyletswydd hon, ac mae deddfwriaeth eilaidd wedi darparu ar gyfer cynlluniau gwella i fodloni gofynion statudol yng Nghymru.

**Cynulliad**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad).

**Cyrff llywodraeth leol**

Cyrff y mae ACC yn gyfrifol am benodi archwilwyr ar eu cyfer, fel y nodir yn Atodlen [cyfeiriad at y Ddeddf]. Mae'r rhain yn cynnwys awdurdodau lleol, cynghorau cymunedol, pwyllgorau awdurdodau lleol (yn cynnwys pwyllgorau ar y cyd), awdurdodau'r heddlu, byrddau prawf lleol, ac awdurdodau tân.

**Datganiadau ariannol**

Y datganiadau ariannol blynyddol ar eu ffurf ragnodedig, neu'r llyfrau cyfrifon ar gyfer y cyrff hynny a archwilir nad yw'n ofynnol iddynt gynhyrchu datganiadau.

**(y) Ddeddf**

[Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) pan gaiff ei ddeddfu].

**Llythyr archwilio blynyddol/crynodeb arolygu blynyddol**

Adroddiad a gyhoeddir gan yr archwilydd penodedig i gorff llywodraeth leol sy'n crynhoi'r gwaith archwilio a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod, barnau neu gasgliadau archwilwyr (lle y bo'n briodol) a materion sylweddol neu arwyddocaol sy'n deillio o waith archwilwyr. Ar gyfer cyrff lle y mae ACC yn cynnal archwiliadau, gellid cyhoeddi'r llythyr archwilio blynyddol gyda chrynodeb o'r gwaith arolygu a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod.

**Llythyr Dealltwriaeth**

Y llythyr, sy'n cyfateb â'r 'llythyr ymgysylltiad', a gyhoeddir i gyrff a archwilir lle mai ACC fydd yr archwilydd statudol. Caiff hwn ei gyhoeddi, a bydd yn parhau mewn grym, hyd nes iddo gael ei ddisodli gan Ddatganiad Cyfrifoldebau perthnasol.

**Llythyr Ymgysylltiad**

Llythyr a gyhoeddir gan ACC i gyrff a archwilir lle y cynhelir yr archwiliad drwy gytundeb. Mae'r llythyr yn nodi priod rolau a chyfrifoldebau'r archwilydd a'r corff a archwilir.

**Perthnasedd (ac arwyddocâd)**

Mae'r Bwrdd Arferion Archwilio yn disgrifio'r cysyniad hwn fel 'mynegiant o arwyddocâd neu bwysigrwydd perthynol mater arbennig yng nghyd-destun datganiadau ariannol yn gyffredinol. Bydd mater yn berthnasol os byddai ei hepgor yn dylanwadu'n rhesymol ar benderfyniadau un o dderbynyddion adroddiad yr archwilydd; fel arall bydd camddatganiad yn berthnasol pe câi ddylanwad tebyg. Gellir ystyried perthnasedd hefyd yng nghyd-destun unrhyw ddatganiad sylfaenol unigol o fewn y datganiadau ariannol neu eitemau unigol a gynhwysir o'u mewn. Ni ellir rhoi diffiniad mathemategol cyffredinol i berthnasedd, gan fod ganddo agweddau ansoddol a meintiol.'

Dim ond i'r archwiliad o'r datganiadau ariannol y mae'r term 'perthnasedd' yn gymwys. Mae gan ACC, ac archwilwyr a benodir gan ACC, gyfrifoldebau a dyletswyddau o dan statud, yn ogystal â'r cyfrifoldeb i archwilio'r datganiad ariannol, nad ydynt o reidrwydd yn effeithio ar eu barn ar y datganiadau ariannol. Mae'r cysyniad o 'berthnasedd' yn berthnasol i'r cyfrifoldebau ehangach hyn, gan gynnwys swyddogaethau arolygu ACC, ac mae archwilwyr ac arolygwyr yn mabwysiadu lefel o arwyddocâd a allai fod yn wahanol i lefel perthnasedd a gymhwysir i'r archwiliad o'r datganiadau ariannol. Mae agweddau ansoddol a meintiol i arwyddocâd.

**Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad**

Un o bwyllgorau statudol Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n casglu tystiolaeth gan Swyddogion Cyfrifo a swyddogion eraill ar sail adroddiadau a gyflwynir gerbron y Cynulliad gan ACC. Ar ôl casglu tystiolaeth, mae'n cynhyrchu ei adroddiadau ei hun y mae'n rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru ymateb iddynt. Ni chaiff adroddiadau ACC sy'n cwmpasu gweithgareddau llywodraeth leol yn unig eu cyflwyno gerbron y Cynulliad ac felly nid ydynt yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Archwilio.

Mae ACC yn cyflwyno amcangyfrif blynyddol o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Archwilio ei ystyried ac, fel Swyddog Cyfrifo Swyddfa Archwilio Cymru, mae'n atebol i'r pwyllgor am y defnydd o'i adnoddau.

**Rheolaeth fewnol**

Y system gyfan o reolaethau, ariannol ac fel arall, a sefydlir er mwyn darparu sicrwydd rhesymol o weithrediadau effeithiol ac effeithlon, rheolaeth ariannol fewnol a chydymffurfiad â chyfreithiau a rheoliadau.

**Rheoleidd-dra (o ran gwariant ac incwm)**

P'un a yw gwariant ac incwm cyrff perthnasol yn cynnwys cyrff GIG lleol, yn amodol ar y cysyniad o berthnasedd, wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, ac yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Safonau Archwilio**

Cyhoeddiadau'r Bwrdd Arferion Archwilio, sy'n cynnwys egwyddorion sylfaenol a gweithdrefnau hanfodol y mae'n ofynnol i archwilwyr gydymffurfio â hwy, ac eithrio lle y nodir fel arall yn y safon archwilio dan sylw.

**Safonau Moesegol**

Cyhoeddiadau'r Bwrdd Arferion Archwilio, sy'n cynnwys egwyddorion sylfaenol sy'n gymwys i'r broses o gynnal archwiliadau y mae angen i archwilwyr gydymffurfio â hwy, ac eithrio lle y nodir fel arall yn y safon dan sylw.

**Stiwardiaeth**

Mae'r term stiwardiaeth yn cyfeirio at yr egwyddor bod y rhai sy'n gyfrifol am gynnal busnes cyhoeddus yn briodol ac am wario arian cyhoeddus yn atebol am sicrhau bod busnes cyhoeddus yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y rhoddir cyfrif priodol amdano, ac y caiff ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

**Swyddfa Archwilio Cymru**

Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) a staff ACC.

**Swyddogaethau arolygu ACC**

Swyddogaethau ACC neu staff Swyddfa Archwilio Cymru, a gyflawnir o dan bwerau arolygu ACC i asesu i ba raddau y mae cyrff llywodraeth leol penodedig yn cydymffurfio â'u dyletswydd 'gwerth gorau' o gyflawni gwelliant parhaus yn ei swyddogaethau gan ystyried cyfuniad o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

**Swyddogion cyfrifo a swyddogion cyfrifol**

Uwch swyddogion y Cynulliad, ei gyrff cyhoeddus cysylltiedig a chyrff GIG Cymru sydd â chyfrifoldeb personol dros y cyllid sydd o dan eu gofal. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cynnwys yr angen i sicrhau rheolaeth, rheoleidd-dra a phriodoldeb ariannol a gwerth am arian yn y defnydd o adnoddau.

Mae'r Trysorlys wedi penodi'r ysgrifennydd parhaol fel prif Swyddog Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Trysorlys hefyd wedi penodi nifer o uwch swyddogion y Cynulliad fel Swyddogion Cyfrifo ychwanegol yn cynnwys, er enghraifft, y cyfarwyddwr iechyd a gofal cymdeithasol fel Swyddog Cyfrifo GIG Cymru. Yn ei dro, mae'r prif Swyddog Cyfrifo wedi penodi prif weithredwyr cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad fel Swyddogion Cyfrifo ar gyfer eu priod sefydliadau, ac mae'r cyfarwyddwr iechyd a gofal cymdeithasol wedi dynodi prif weithredwyr byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau GIG fel swyddogion cyfrifol. Gellir gwneud swyddogion cyfrifo a swyddogion cyfrifol yn atebol gerbron Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin.

**Y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu**

Caiff y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu eu diffinio mewn safonau archwilio fel 'y personau hynny sy'n gyfrifol am oruchwylio, rheoli a chyfeirio endid'.

Ar gyfer y Cynulliad, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yw'r bwrdd gweithredol a'r pwyllgor llywodraethu corfforaethol (y'i gelwir felly er mwyn osgoi dryswch gyda Phwyllgor Archwilio statudol y Cynulliad). O fewn y fframwaith hwn ceir trefniadau llywodraethu ychwanegol ar gyfer yr asiantaethau gweithredol a Gwasanaethau Seneddol y Cynulliad a gaiff eu harwain gan bersonau a ddynodir fel Swyddogion Cyfrifo ychwanegol.

Ar gyfer cyrff eraill sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yw'r byrddau penodedig neu eu cyrff cyfatebol, y prif weithredwyr neu benaethiaid swyddogol parhaus yn rhinwedd eu swydd fel Swyddogion Cyfrifo a'u pwyllgorau archwilio.

Mewn cyrff GIG lleol, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, at ddiben cydymffurfio â safonau archwilio, yw bwrdd y cyfarwyddwyr ac, mewn perthynas â chyfrifoldebau penodol, y pwyllgor archwilio ar ran y bwrdd, a'r prif weithredwyr fel swyddogion cyfrifol.

O fewn cyrff llywodraeth leol, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yw:

- ar gyfer awdurdodau lleol – y cyngor llawn, y pwyllgor archwilio (os ydyw wedi cael ei sefydlu), ac unrhyw bwyllgor arall sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig dros gymeradwyo'r datganiadau ariannol;
- ar gyfer awdurdodau'r heddlu neu awdurdodau tân – yr awdurdod llawn, y pwyllgor archwilio (os yw wedi cael ei sefydlu), ac unrhyw bwyllgor arall sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig dros gymeradwyo'r datganiadau ariannol;
- ar gyfer byrddau prawf lleol – y bwrdd, a'r pwyllgor archwilio;
- ar gyfer cyrff llywodraeth leol eraill – yr awdurdod llawn/bwrdd/cyngor, pwyllgor archwilio (os yw wedi cael ei sefydlu), ac unrhyw bwyllgor arall sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig dros gymeradwyo'r datganiadau ariannol.

**Swyddfa Archwilio Cymru**

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) a staff ACC yn cyfuno i greu Swyddfa Archwilio Cymru a gafodd ei greu gan [Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru)].

*Ymgynghoriad drafft yn ddyddiedig Awst 2004*